Hysbysiad Preifatrwydd - Gwasanaeth Profi COVID-19

Bydd Prifysgol Caerdydd yn prosesu data personol at ddibenion cyflwyno gwasanaeth profi COVID-19. Yn unol â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data, mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi sut caiff data personol ei brosesu er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth hwn, gan gynnwys canllawiau a chymorth cysylltiedig.

Rheolwr y Data

Prifysgol Caerdydd fydd yn rheoli'r data personol a roddwch, felly mae'n gyfrifol yn gyfreithiol am brosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Mae Prifysgol Caerdydd yn gofrestredig gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) fel Rheolwr Data er mwyn prosesu data personol Rhif cofrestru Z6549747.

Manylion Cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Rhaid i'r Brifysgol gael swyddog diogelu data y gellir cysylltu â nhw os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, pryderon neu gwynion am y ffordd y caiff eich data personol ei brosesu. Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Prifysgol Caerdydd drwy ebostio InfoRequest@caerdydd.ac.uk

Pa ddata personol fyddwn ni'n ei gasglu?

Bydd angen y data personol canlynol ar Brifysgol Caerdydd er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth:

- Enw, cyfeiriad, rhif myfyrwyr/staff, gwybodaeth gyswllt.

Sut caiff ei ddefnyddio a'i rannu?

Bydd y data personol yn cael ei ddefnyddio i drefnu apwyntiadau; cynnal a phrosesu profion; rhoi canlyniadau; a rhoi gwybod i unigolion am ganlyniadau positif mewn profion.

Lle bo angen, bydd Prifysgol Caerdydd yn defnyddio'r data personol i roi arweiniad a chymorth ynglŷn â'r camau nesaf. Felly, bydd data personol sy'n ymwneud â chanlyniadau positif mewn profion ar gael i'r timau hynny sydd eu hangen i roi canllawiau a chymorth o'r fath – er enghraifft, Lles Myfyrwyr.

Pan fydd unigolyn yn cael canlyniad positif mewn prawf, bydd yn ofynnol i Brifysgol Caerdydd rannu data personol â phartïon allanol perthnasol fel y GIG at ddibenion cyflwyno rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu.

Bydd Prifysgol Caerdydd yn defnyddio data personol sy'n ymwneud â chanlyniadau positif a negatif mewn profion at ddibenion cynllunio a rhagweld. Lle bynnag y bo modd, bydd data personol yn cael ei gadw o dan ffugenw. Bydd Prifysgol Caerdydd hefyd yn defnyddio canlyniadau positif mewn profion a data personol cysylltiedig i ddeall pa mor gyffredin yw COVID-19 a sut mae'n lledaenu, er mwyn datblygu profion gwyliadwriaeth.

Awst 2020

Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol?

Bydd Prifysgol Caerdydd yn prosesu data personol o dan y seiliau canlynol a nodir yng nghyfraith Diogelu Data:

Sail	**Esboniad**
Tasg gyhoeddus	Gall Prifysgol Caerdydd brosesu data personol pan mae angen gwneud hynny er mwyn cwblhau tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd ym Mhrifysgol Caerdydd.
Buddiannau dilys	Heblaw am gyflawni'r dasg gyhoeddus, bydd Prifysgol Caerdydd yn prosesu data personol oherwydd buddiannau dilys (sef profi a monitro COVID-19). Ni fydd y prosesu'n diystyru hawliau, rhyddid a buddiannau unigolion.
Buddiannau hanfodol	Bydd Prifysgol Caerdydd yn prosesu data personol pan mae angen gwneud hynny er mwyn diogelu buddiannau hanfodol unigolyn.
Rhwymedigaeth gyfreithiol	Bydd Prifysgol Caerdydd yn prosesu data personol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, megis y ddyletswydd statudol i hysbysu rhai partïon am achosion tybiedig o glefydau hysbysadwy
Caniatâd	Bydd Prifysgol Caerdydd yn prosesu data personol ar sail caniatâd unigolyn. Dim ond pan fydd y Brifysgol wedi gofyn am ganiatâd y bydd y sail hon yn gymwys – er enghraifft, i gymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol. Pan ddefnyddir y sail hon, mae gan yr unigolyn yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar yr hysbysiad hwn. Nid yw'r sail yn berthnasol i gyflwyno Gwasanaeth Profi COVID-19.

A yw data personol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r UE?
Lle bynnag y bo modd, bydd eich data personol yn cael ei brosesu o fewn yr UE. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r UE – er enghraifft, os bydd cyflenwr TG penodol yn storio data personol y tu allan i'r UE. Os bydd trosglwyddiad rhyngwladol, bydd camau diogelu priodol (fel Cymalau Contract Safonol) yn cael eu rhoi ar waith a bydd y prosesu'n seiliedig ar gyfarwyddiadau dogfennol Prifysgol Caerdydd.

Am ba hyd y bydd eich data personol yn cael ei gadw?

Bydd Prifysgol Caerdydd yn cadw eich data personol yn unol â'r cyfnodau cadw cyffedinol a nodir yn Amserlen Cadw Cofnodion y Brifysgol. Bydd eich data personol yn cael ei gadw gan yr adrannau hynny ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n ymwneud â chyflwyno'r gwasanaeth hwn, gan gynnwys canllawiau a chymorth cysylltiedig, am gyfnod o amser a bennir gan y pandemig.

Eich hawliau
O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawliau penodol fydd yn gysylltiedig â'r sail gyfreithiol a ddefnyddir gennym i brosesu eich data. I gael rhagor o wybodaeth gweler y canllawiau canlynol a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch arfer yr hawliau hyn drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar yr hysbysiad hwn. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gyfrifol am reoleiddio diogelu data yn y DU. Rydym ni'n gobeithio y gallwn ddatrys eich cwestiynau, ymholiadau neu bryderon ond os ydych chi'n dal yn anfodlon gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Awst 2020